Afasic GeirfA

# Anhwylder iaith lefel uwch (HLLD)

## Beth yw anhwylder iaith lefel uwch (HLLD)?

Dim ond yn ddiweddar y cafodd y cyflwr HLLD ei ddiffinio a'i gydnabod. Bydd pobl sydd â HLLD yn datblygu iaith sy'n normal o ran strwythur a bydd ganddynt rywfaint o ddealltwriaeth, ond bydd ganddynt broblemau gyda:

- 'dehongli' neu deall datganiadau, cwestiynau a chyfarwyddiadau mwy cymhleth; byddant yn aml yn 'camddeall'
- mynegi cysyniadau mwy datblygedig e.e. 'dylwn fod wedi..'
- dod o hyd i eiriau
- agweddau mwy soffistigedig ar iaith. Er enghraifft, mae 'Rhaid i chi fynd adref nawr' yn anghwrtais, ond mae 'Rhaid i chi gael un o'r bisgedi hyn' yn gwrtais
- hiwmor sy'n gysylltiedig â iaith
- rhesymu: mae'n rhaid 'esbonio pethau'n fanylach'
- dehongliad llythrennol e.e. bydd plentyn y dywedir wrtho am 'dorchi llewys' (yn golygu gwneud mwy o ymdrech) yn troi ei lewys i fyny.

Mae llawer o bobl sydd â HLLD yn fwy deallus neu'r un mor ddeallus ag eraill a chyda sgiliau gwybyddol (dysgu gwybodaeth) a sgiliau llythrennedd da. Byddant yn aml yn dysgu strategaethau ymdopi neu gelu sy'n cuddio eu problemau, ac ni fydd HLLD yn aml yn dod i'r golwg mewn profion iaith neu brofion seicolegol confensiynol. Bydd angen arsylwi'r person yn agos a dod i'w adnabod yn dda cyn gwneud diagnosis cywir, a bydd angen defnyddio rhestr wirio fel uchod.

Yn aml ceir oedi neu anhwylder datblygu iaith yn gynnar, sy'n gwella i bob golwg, gan adael yr anawsterau a ddiffinnir uchod. Bydd gan bobl sydd â HLLD anawsterau gyda sgiliau cymdeithasol a ffurfio perthynas ag eraill.

## Cyfeiriadau


**Bishop, D** (1989), Autism, Asperger's syndrome and semantic-pragmatic disorder: where are the boundaries?, yn *British Journal of Disorders of Communication* 24, t.107-121

**Conti-Ramsden, G** (1986), The development of conversational disability, yn *British Journal of Disorders of Communication*, cyfrol 21

**I CAN** (1986), Case study: a child with a high level disorder, characterised by syntatic, semantic and pragmatic difficulties, yn *Advances in Working With Language Disordered Children*


## Taflenni Geirfa Perthnasol eraill

- Anhwylderau semantig a phragmatig (5)

## Sefydliadau eraill a all helpu

**I CAN**
4 Dyer's Buildings, Holborn, London, EC1N 2QP
Ffôn: 0870 010 40 66

**NAPLIC (Sefydliad Cenedlaethol y Gweithwyr Proffesiynol sy'n ymwneud â Phlant â Nam Iaith)**
14 Heritage Close, Peasedown St John, Bath BA2 8TJ


*Ysgrifennwyd gan Pat Mobley, therapydd lleferydd ac iaith, gyda diolch i Elizabeth Auger, athrawes iaith arbenigol.*